

# CADW'N LACH YN Y GWAITH

# ASTUDIAETH ACHOS

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

RHONDDA CYNON TAF

## “Heb ymyrraeth Cadw'n Iach yn y Gwaith, mae’n debygol y byddai’r cleient yma wedi aros amser hir i rywun archwilio ei symptomau.”

### Gwybodaeth am Wasanaeth Cadw’n Iach yn y Gwaith

Mae'r Gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig dull rhagweithiol ac integredig sy'n cefnogi atal afiechyd corfforol a meddyliol, wrth gefnogi'r broses adsefydlu a rheoli cyflyrau tymor hir.

Rydyn ni'n darparu cymorth clinigol i staff busnesau bach a chanolig yn Rhondda Cynon Taf i helpu pobl i weithio'n well o ddydd i ddydd ac i reoli symptomau er mwyn eu galluogi i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau i weithio.

### Y Broblem

Cafodd y cleient ei atgyfeirio gan ei reolwr yn sgil problemau iechyd hirdymor. Ymunodd y cleient â'r gwasanaeth gyda chyflwr Cyhyrysgerbydol (MSK) a ddatblygodd yn ystod y cyfnod clo, gan effeithio ar ei symudedd. Roedd wedi cael trafferth cael gafael ar wasanaethau oherwydd COVID 19 ac mae wedi bod yn absennol o'r gwaith am o leiaf 8 mis.

### Ein Datrysiad Ni

Cafodd y cleient ei atgyfeirio gan y ffiso at feddyg teulu ar frys er mwyn iddo gael barn cyhyrysgerbydol arbenigol gan y gwasanaeth Asesu a Thrin Cyflyrau Cyhyrysgerbyol Clinigol (CMATS). Roedd y cleient wedi cael ei atgyfeirio i'r gwasanaeth arbenigol gan ei feddyg teulu o'r blaen, ond ni chafodd ei weld oherwydd COVID 19. Gwthiodd ffisiotherapydd Cadw'n Iach yn y Gwaith am adolygiad pellach gyda CMATS gan fod symptomau’r cleient yn peri pryder. O ganlyniad i ymyrraeth y ffisio, mae'r cleient yn aros am sgan MRI a llawdriniaeth bosibl.

### Adborth

**Beth Ruff, Ffisiotherapydd Galwedigaethol** - “Fe wnaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith ddarparu cymorth i'r cleient yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws pan oedd wedi cael trafferth cael gafael ar wasanaethau priodol. Trwy wthio am adolygiad arbenigol pellach, mae'r cleient wedi gallu derbyn y gofal meddygol sydd ei angen arno. Doedd y cleient ddim wedi gallu gwneud hynny ei hun dros gyfnod o ychydig fisoedd."

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

*Mae'r gwasanaeth Cadw'n Iach yn y Gwaith yn cynnig cymorth i fusnesau bach a'u gweithwyr i ddelio â materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, iechyd a lles - gan alluogi busnesau i fod yn fwy cydnerth a llewyrchus.*

RHONDDA CYNON TAF